Hawdd ei Ddeall

# Edrych ar wasanaethau anabledd dysgu yn Sir Gaerfyrddin

## Beth wnaethon ni ei ddarganfod



Tachwedd 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru - Archwiliad Sicrwydd Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin (CCC) a'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD).**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu. Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 33**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Arolygiaeth Gofal Cymru** ac **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefannau:**

www.arolygiaethgofal.cymru

www.agic.org.uk

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am yr adroddiad yma** .......... **4**

**Beth rydyn ni'n ei wneud** .......... **5**

Y ffordd rydyn ni wedi gwneud ein gwiriadau .......... 6

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod** .......... **8**

Pobl .......... 9

Atal .......... 19

Partneriaeth .......... 24

Llesiant .......... 26

**Beth sy'n digwydd nesaf** .......... **31**

**Geiriau Anodd** .......... **33**

# Am yr adroddiad yma

**Arolygiaeth Gofal Cymru** ac **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** ydyn ni.



Rhwng **10 a 12 Tachwedd 2025**, fe wnaethon ni **Archwiliad Sicrwydd** o:

- Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin a
- Cyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.



Mae **Archwiliad Sicrwydd** yn edrych i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau.




Mae’r adroddiad yma yn rhannu beth rydyn ni wedi ei ddarganfod.

# Beth rydyn ni'n ei wneud



Rydyn ni'n edrych I weld pa mor dda mae cynghorau a byrddau iechyd yn gwneud eu gwaith ac yn helpu pobl.

Mae ein ffocws ar ba mor dda maen nhw'n gweithio yn y 4 maes yma:



**1. Pobl** – Gwneud yn siŵr bod gan bawb lais a rheolaeth yn eu bywyd.



**2. Atal** – Cadw'r angen am gefnogaeth yn isel a stopio problemau rhag gwaethygu.



**3. Partneriaethau** – Gweithio'n dda gydag eraill i ddarparu gwasanaethau da, parhaol.



**4. Llesiant** – Amddiffyn pobl rhag niwed a chamdriniaeth, fel eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu cefnogi.




Rydyn ni'n edrych I weld os ydy gwasanaethau yn dilyn y cyfreithiau:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.
- Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023.

## Y ffordd rydyn ni wedi gwneud ein gwiriadau

Fe wnaethon ni edrych ar gofnodion 15 o bobl. Roedd hyn yn cynnwys:



- Edrych ar gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol.



- Siarad â'r person, eu teulu, gofalwyr a gweithwyr allweddol.



Fe wnaethon ni siarad gyda 20 o bobl sy’n defnyddio gwasanaethau neu eu gofalwyr.



Fe wnaethon ni siarad gyda 47 o weithwyr cyngor a gweithwyr byrddau iechyd.




Fe wnaethon ni edrych ar ddogfennau a gwneud arolygon gyda phobl sy’n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr, a gweithwyr cyngor.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Fe wnaethon ni ddod o hyd i waith da yn cael ei wneud.




Ac fe wnaethon ni ddod o hyd i rai pethau sydd angen bod yn well.




Mae yna rai pethau rydyn ni eisiau i'r cyngor a'r bwrdd iechyd eu gwneud.




Pan rydyn ni'n dweud **rhaid**, mae hyn yn meddwl newidiadau sydd angen eu gwneud i ddilyn y gyfraith.



Pan rydyn ni'n dweud **dylai**, mae hyn yn meddwl newidiadau fydd yn gwneud pethau'n well ond dydyn nhw ddim yn gyfraith.

## Gwaith da



Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi pobl. Mae eu nodau a'u rheolau yn cyfateb yn bennaf. Mae hyn yn helpu i roi cefnogaeth ar y cyd. Mae gwasanaethau fel arfer yn ymateb yn dda pan fydd pobl angen help.



Mae'r cyngor yn llogi ac yn cadw staff yn dda. Mae digon o staff i helpu pobl gydag archwiliadau iechyd meddwl bob amser.



Mae'r bwrdd iechyd wedi creu swyddi newydd i gefnogi iechyd corfforol pobl yn well.



Mae staff y cyngor a'r bwrdd iechyd yn dweud bod Sir Gaerfyrddin yn lle da i weithio. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gallu rhannu syniadau. Mae arweinwyr yn gyfeillgar ac yn hawdd siarad â nhw.



Mae staff ar draws gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu cael hyfforddiant sy’n ateb eu hanghenion. Mae staff yn helpu ei gilydd ar draws sefydliadau.



Mae therapyddion iaith a lleferydd yn rhoi hyfforddiant ar ddefnyddio llawer o ffyrdd o gyfathrebu, dim siarad yn unig. Mae hyn yn helpu staff i gefnogi pobl sy’n defnyddio gwahanol ffyrdd o gyfathrebu.



Mae hyfforddiant ar y cyd yn helpu staff iechyd a gofal cymdeithasol i weithio’n well fel tîm.



Mae llawer o bobl yn dweud bod staff yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar. Mae pobl yn hoffi staff sy’n glir ac yn rhoi cefnogaeth dda.




Mae gwasanaethau yn cefnogi'r Gymraeg yn dda. Mae pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg heb orfod gofyn. Mae staff sy'n siarad Cymraeg a gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ar gael.





Mae holl staff y cyngor yn y tîm **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** yn siarad Cymraeg.



Mae **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** yn broses gyfreithiol. Mae'n cael ei ddefnyddo pan nad ydy person yn gallu penderfynu am eu gofal neu eu triniaeth eu hunain. Mae'n gadael i staff gyfyngu ar ryddid rhywun i'w cadw'n ddiogel rhag niwed.



Mae gwasanaethau yn defnyddio dehonglwyr pan fydd angen ieithoedd eraill ar bobl. Mae dehonglwyr yn bobl sy'n gallu siarad iaith arall. Mae staff yn gallu cael hyfforddiant Makaton.






Mae staff iechyd yn defnyddio gwahanol offer cyfathrebu, gan gynnwys:

- Gwybodaeth Hawdd ei Ddeall.
- Matiau siarad gyda lluniau.
- Calendrau symbol i esbonio cynlluniau a threfnion.



Mae pobl yn rhannu beth maen nhw'n feddwl trwy grwpiau fel Pobl yn Gyntaf a Gweithio Gyda'n Gilydd. Mae'r grwpiau yma yn gweithio gyda'r cyngor i wneud yn siŵr bod lleisiau pobl yn cael eu clywed.



Mae'r cyngor a'r bwrdd iechyd yn cynnwys pobl mewn gwasanaethau cynllunio. Mae pobl yn helpu i benderfynu sut mae rhywfaint o arian yn cael ei wario. Mae hyn yn cynnwys arian gan y grŵp o'r enw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.



Mae pobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal bob dydd. Mae staff yn parchu dewisiadau ac yn dod i adnabod pobl yn dda. Mae cofnodion yn cynnwys manylion personol, hoffterau, anghenion a straeon bywyd.




Mae gan gynlluniau cymorth a chynlluniau iechyd lawer o wybodaeth. Maen nhw'n esbonio cefnogaeth ddyddiol yn glir. Maen nhw'n cynnwys arwyddion i wylio amdanyn nhw os ydy rhywun yn gallu mynd yn sâl eto.



Mae'r cyngor eisiau cael llai o ofal preswyl. Maen nhw'n cynnig mwy o dai â chymorth. Mae Cysylltu Bywydau yn gadael i bobl fyw gyda gofalwyr yn eu cartref. Mae'r gwasanaeth yma wedi tyfu llawer.



Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, symudodd 45 o bobl i fyw â chymorth. Mae hyn yn helpu pobl i gael mwy o ddewisiadau, a byw bywydau gwell.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod am **Daliadau Uniongyrchol** neu yn eu defnyddio yn barod. Mae'r cyngor yn cynnig yr opsiwn yma ac yn rhoi cefnogaeth dda.




Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn arian mae gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ei roi i chi. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i chi.




Mae'r cyngor yn helpu pobl i ennill profiad gwaith a gwaith gyda thâl. Er enghraifft, mae rhai pobl yn gwirfoddoli yng nghaffi Llyn Llech Owain. Maen nhw'n dysgu sgiliau fel hylendid bwyd a gwasanaeth cwsmeriaid.



Mae gwasanaethau **eiriolaeth** ar gael ac yn gweithio'n dda.

Mae **eiriolaeth** yn helpu pobl i ddeall eu hawliau a siarad.



Mae 1 prif bwynt mynediad sy'n paru pobl â gwasanaeth eiriolaeth. Mae staff yn gwybod sut i gael mynediad at eiriolaeth i bobl a theuluoedd.




Mae'r rhan fwyaf o staff y bwrdd iechyd yn cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. Mae'r cyngor a'r bwrdd iechyd yn darparu hyfforddiant ar gyfreithiau pwysig. Mae hyfforddiant yn cael ei newid ar gyfer gwahanol rolau.

## Pethau sydd angen bod yn well



Fe ddylai cynlluniau gofal fod yn haws i'w deall. Fe fyddai gwell cyfathrebu gyda chydlynwyr gofal yn helpu pobl i barhau i gymryd rhan.




**Fe ddylai gwasanaethau wneud mwy o ddogfennau hawdd eu deall a hygyrch i bawb. Mae hygyrch yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio yn hawdd gan unrhyw un.**



Mae rhai pobl yn dweud ei bod hi'n anodd cyrraedd neu siarad â staff iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd pobl:

- Dydy galwadau ffôn ddim yn cael eu dychwelyd.
- Dydy negeseuon e-bost ddim yn cael eu hateb.
- Mae'n anodd cysylltu â'r gweithiwr cywir.



Mae arolygon yn dangos bod rhai pobl yn teimlo nad ydy staff yn gwrando arnyn nhw. Mae gofalwyr yn adrodd am rybudd byr ar gyfer apwyntiadau iechyd.



**Rhaid i arweinwyr helpu staff i wella sut a phryd maen nhw'n cyfathrebu â phobl.**



Dydy cynlluniau gofal bwrdd iechyd ac **asesiadau risg** ddim bob amser yn hawdd dod o hyd iddyn nhw.

Mae **asesiad risg** yn meddwl edrych ar beth sy'n gallu mynd o'i le a sut i gadw'n ddiogel.



Weithiau mae cofnodion yn cael eu cadw ar wahanol systemau cyfrifiadurol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd edrych drostyn nhw ac mae staff yn gallu colli gwybodaeth bwysig.



**Fe ddylai arweinwyr byrddau iechyd edrych ar gynlluniau gofal ac asesiadau risg. Fe ddylen nhw wneud yn siŵr eu bod yn glir ac yn hawdd dod o hyd iddyn nhw.**



Mae problemau gyda llogi cynorthwywyr personol. Mae hyn yn gallu oedi cefnogaeth a lleihau pa mor dda mae **Taliadau Uniongyrchol** yn gweithio i bobl.



**Fe ddylai arweinwyr ddatrys problemau llogi fel bod pobl yn gallu cael cefnogaeth dda maen nhw'n gallu dibynnu arno.**



Mae'r bwrdd iechyd yn defnyddio meddygon dros dro i ddarparu gofal iechyd meddwl. Mae hyn yn achosi newidiadau staff a gofal llai sefydlog. Mae pobl yn ei chael hi'n anoddach ymddiried mewn meddygon sy'n newid.



**Fe ddylai'r bwrdd iechyd ganolbwyntio ar logi a chadw meddygon hirdymor.**



Dydy rhai staff gofal iechyd ddim wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Bywyd Sylfaenol. Mae'r hyfforddiant yma yn helpu staff i ymateb mewn argyfyngau a chadw pobl yn ddiogel.



Mae lefelau hyfforddiant yn is na'r lefel ofynnol sy'n rhoi pobl mewn perygl.



**Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod staff yn cwblhau cyrsiau hyfforddi neu gloywi ar amser.**

## Gwaith da



Mae gan y cyngor gynllun i helpu pobl yn gynnar. Mae gweithwyr llesiant a Chysylltwyr Cymunedol yn cysylltu pobl gyda chymorth lleol fel Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Mae staff y bwrdd iechyd yn cynnal gweithdai cymunedol am archwiliadau iechyd a sgrinio.

Mae'r cyngor yn cefnogi annibyniaeth a gweithgareddau cymdeithasol drwy:



- Staff canolfannau dydd yn cefnogi grwpiau mewn mannau cymunedol.



- Defnyddio canolfannau hamdden ar gyfer gweithgareddau grŵp.



- Gwasanaethau sy'n cael eu talu i redeg sesiynau grŵp.




Mae gan y cyngor a'r bwrdd iechyd ffyrdd clir o edrych bod gwasanaethau yn ddiogel ac yn gweithio'n dda. Maen nhw'n cynnal archwiliadau rheolaidd ar sut mae gwasanaethau'n gweithio. Mae uwch reolwyr yn adolygu hyn bob mis.



Mae staff y bwrdd iechyd yn gwybod sut i gasglu a defnyddio beth mae pobl yn ei ddweud am wasanaethau. Mae yna systemau i:

- Cofnodi cwynion.
- Edrych ar bryderon.
- Datrys problemau'n gynnar pan mae'n bosibl.




Mae gan y cyngor ffyrdd clir o adolygu cynlluniau gofal ar amser. Mae swyddog adolygu yn gwneud yn siŵr bod adolygiadau yn digwydd pan ddylen nhw.



Mae staff y gwasanaeth dydd a gweithwyr cymdeithasol yn rhannu gwybodaeth yn dda. Mae hyn yn helpu i adolygu cyfarfodydd i gynnwys gwybodaeth lawn a chywir.

## Pethau sydd angen bod yn well




Mae rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau dydd a seibiannau byr. Mae pobl eisiau mwy o gyfleoedd ac amser hirach wrth ddefnyddio'r gwasanaethau yma.



**Rhaid i'r cyngor barhau i weithio i wella'r gwasanaethau pwysig yma.**



Mae rhestrau aros bwrdd iechyd yn gallu oedi cefnogaeth i bobl. Mae pobl yn aml yn aros am amser hir am Therapi Galwedigaethol.



Mae achosion brys yn cael eu gweld yn gyntaf, ond mae pobl ag anghenion synhwyraidd yn aml yn aros hiraf. Mae anghenion synhwyraidd yn meddwl problemau gyda phethau fel golwg a chlyw.



Mae staff yn adrodd eu bod yn aros am amser hir am wybodaeth gan dimau iechyd eraill.




**Rhaid i'r cyngor a'r bwrdd iechyd barhau i edrych ar restrau aros. Rhaid iddyn nhw gofnodi gwybodaeth i ddangos bod penderfyniadau'n deg ac yn glir.**



Dydy rhai pobl ddim yn cael archwiliadau iechyd blynyddol gan eu meddyg teulu. Dydy rhai meddygon ddim yn deall sut mae anabledd dysgu yn effeithio ar iechyd. Mae hyn yn gallu arwain at iechyd gwaeth i bobl.



**Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod pobl yn cael archwiliadau blynyddol. Rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod meddygon teulu yn cael hyfforddiant am iechyd pobl ag anabledd dysgu.**



Mae pobl sy'n byw i ffwrdd o drefi yn gweld gwasanaethau yn anoddach eu cyrraedd. Mae problemau trafnidiaeth gyhoeddus a phroblemau rhyngrwyd yn gwneud hyn yn waeth.



**Fe ddylai'r cyngor gefnogi grŵp fel y Grŵp Gweithio gyda'n Gilydd i rannu beth mae pobl yn feddwl.**



**Mae'n rhaid i'r cyngor stopio gadael pobl allan o wasanaethau oherwydd ble maen nhw'n byw neu eu mynediad ar-lein.**

## Gwaith da



Mae uwch reolwyr yn y cyngor a'r bwrdd iechyd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Ar gyfer gofal preswyl a gwasanaethau byw â chymorth, maen nhw'n rhannu arian ac yn cynllunio gyda'i gilydd.



Mae'r bwrdd iechyd yn talu am aelod o staff sy'n helpu pobl i symud o ysbyty iechyd meddwl i'r gymuned. Mae hyn yn lleihau'r risg o bobl fynd yn sâl eto.



Mae staff o wahanol wasanaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae gweithio yn yr un adeilad a chyfarfodydd ar y cyd yn eu helpu i weithio fel tîm.



Mae gofal a chymorth wedi'u trefnu'n dda ar draws gofal ysbyty, gwasanaethau cymunedol a chartref. Dydy timau ddim yn ailadrodd gwaith ac yn llenwi bylchau mewn gwasanaethau. Mae hyn yn meddwl bod pobl yn cael gwell gofal a chefnogaeth.

## Pethau sydd angen bod yn well



Mae rhai staff yn teimlo nad ydy gweithio gyda'i gilydd bob amser yn mynd yn dda.



**Fe ddylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd gynnwys yr holl staff gofal wrth siarad am sut mae gwasanaethau yn gallu bod yn well.**



Mae'r cyngor a'r bwrdd iechyd yn defnyddio systemau cyfrifiadurol gwahanol. Mae hyn yn gwneud rhannu gwybodaeth yn anoddach.



Dydy rhai staff ddim yn gallu gweld cofnodion ei gilydd. Mae hyn yn gallu oedi rhannu gwybodaeth bwysig am ofal pobl.




**Fe ddylai'r cyngor a'r bwrdd wiechyd adolygu'r systemau cyfrifiadurol sydd yn cael eu defnyddio. Fe ddylen nhw edrych ar ffyrdd o wneud hyn yn well, fel systemau sy'n cael eu rhannu ar gyfer cofnodi gwybodaeth.**

## Gwaith da



Mae gan y cyngor dimau anabledd dysgu ac iechyd meddwl ar wahân. Mae rheolwr yn cysylltu gwaith gyda'r bwrdd iechyd.



Mae'r cyngor yn newid gweithgareddau dydd i bobl ag anabledd dysgu. Maen nhw'n gweithio ar gael mwy yn y gymuned a mwy o oriau.



Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd a seibiannau byr yn dweud eu bod yn dda.




Mae timau'r cyngor yn cefnogi llawer o bobl sydd â Chynlluniau Triniaeth Gofal a Chymorth. Mae hyn yn dangos bod gwasanaethau yn bodloni dyletswyddau cyfreithiol. Mae hefyd yn dangos gwaith da rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae cynlluniau gofal a chymorth yn dilyn y rheolau ac yn rhoi gwybodaeth glir am fywydau ac anghenion pobl.



Mae staff yn ddiogel ac yn dilyn rheolau'r bwrdd iechyd wrth roi a chofnodi meddyginiaethau.



Mae'r cyngor yn gwella cynllunio ar gyfer pobl ifanc sy'n symud i wasanaethau oedolion. Maen nhw'n gweithio gyda gwasanaethau plant, timau tai, a thimau sy'n cynllunio gwasanaethau.



Mae gwaith o dan **Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid** a'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn canolbwyntio ar ddiogelwch. Mae penderfyniadau'n cael eu cofnodi'n glir.




Mae cynlluniau ac adolygiadau gofal yn dangos bod staff yn meddwl am hawliau pobl.




Mae staff ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn deall am benderfynu beth sydd fwyaf diogel a gorau i'r person. Mae asesiadau yn canolbwyntio ar yr anghenion pwysicaf. Mae gwiriadau yn gwneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud yn gywir.



Mae **Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid** yn cael eu gwneud yn dda ac yn cael eu hadnewyddu ar amser.




Mae staff wedi eu hyfforddi yn gofalu am gofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae systemau yn gwneud yn siŵr bod pawb yn dilyn rheolau cyfreithiol.



Mae systemau clir yn eu lle yn bennaf i amddiffyn oedolion mewn perygl. Mae staff yn deall eu dyletswyddau **diogelu** ac yn gwirio ffurflenni atgyfeirio yn dda.

Mae **diogelu** yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.



Mae cefnogi gofalwyr yn bwysig i'r cyngor. Mae'r holl dîm yn gweithio tuag at Wobrau Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Neu maen nhw wedi eu cael yn barod.



Roedd archwiliadau o asesiadau gofalwyr yn dangos canlyniadau da. Mae staff yn cynnig asesiadau i ofalwyr i edrych ar eu hanghenion. Mae llawer o ofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi.



Mae'r cyngor yn datblygu mwy o wasanaethau **seibiant**.

Mae **seibiant** yn meddwl egwyl byr i rywun sydd angen cefnogaeth.




Mae yna 1 gwasanaeth seibiant lle mae pobl yn gallu aros dros nos o'r enw Tir Einon. Mae'n cefnogi pobl ag anghenion cymhleth ac yn gallu delio gydag argyfyngau. Dywedodd pobl fod y gwasanaeth yma yn dda.

## Pethau sydd angen bod yn well




Fe wnaeth adolygiadau o gofnodion **diogelu** ddangos bod penderfyniadau yn gallu bod yn araf. Weithiau dydy rhannu gwybodaeth a chadw cofnodion ddim yn gyflawn.



**Fe ddylai arweinwyr wella pa mor gyflym mae penderfyniadau yn cael eu gwneud. Fe ddylen nhw gofnodi pam maen nhw'n gwneud pob penderfyniad.**



Dywedodd llawer o bobl fod y symud o wasanaethau iechyd plant i oedolion yn wael. Mae pobl yn aml yn colli cefnogaeth reolaidd yn ystod y cyfnod yma. Mae cadw cefnogaeth yn helpu pobl i gadw'n iach.



**Rhaid i'r bwrdd iechyd wella mynediad at wasanaethau pan fydd pobl yn symud o wasanaethau plant i oedolion.**

# Beth sy'n digwydd nesaf



Rydyn ni eisiau i'r cyngor a'r bwrdd iechyd drwsio'r pethau sydd angen bod yn well.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Yn **Arolygiaeth Gofal Cymru**, fe fyddwn ni'n edrych ar y gwaith mae'r cyngor yn ei wneud.



Fe ddylai'r cyngor rannu beth sy'n gweithio'n dda gyda chynghorau eraill i wneud gwasanaethau yn well ar draws Cymru.

agic Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales hiw

Yn **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru,** fe fyddwn ni'n edrych ar bethau iechyd sydd angen eu gwella gyda Chynllun Gwella.




Fe fydd yn dweud beth sydd angen newid, pwy fydd yn ei wneud, a phryd.




Rydych chi'n gallu darganfod sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth yn: www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol




Fe wnaethon ni gynnig y dewis i bobl gymryd rhan yn y Gymraeg, ond doedd neb eisiau gwneud hynny.




Diolch i'r bobl, y staff a'r partneriaid sydd wedi helpu gyda'n gwiriadau.

# Geiriau Anodd

## Archwiliad Sicrwydd

Mae Archwiliad Sicrwydd yn edrych i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau.

## Asesiad risg

Mae asesiad risg yn meddwl edrych ar beth sy’n gallu mynd o’i le a sut i gadw’n ddiogel.

## Diogelu

Mae diogelu yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.

## Eiriolaeth

Mae eiriolaeth yn helpu pobl i ddeall eu hawliau a siarad.

## Seibiant

Mae seibiant yn meddwl egwyl byr i rywun sydd angen cefnogaeth.

## Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn arian mae gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ei roi i chi. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i chi.

## Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid

Mae Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid yn broses gyfreithiol. Mae'n cael ei ddefnyddio pan nad ydy person yn gallu penderfynu am eu gofal neu eu triniaeth eu hunain. Mae'n gadael i staff gyfyngu ar ryddid rhywun i'w cadw'n ddiogel rhag niwed.

WG53971
ISBN: 978-1-83715-992-5